SESIWN 6: A oedd menywod yn well eu byd o ganlyniad i grwpiau gweithredu cyfunol?

Pwnc: Daearyddiaeth **Ystod oedran: 11-14 oed** **Amser: 1 awr**

Amlinelliad

Bydd dysgwyr yn defnyddio siartiau ac astudiaethau achos i werthuso sut mae bod yn rhan o grŵp gweithredu cyfunol yn gallu grymuso menywod.

Amcanion Dysgu

- Dehongli data ansoddol a meintiol
- Gwerthuso effaith y gweithredu cyfunol ar rymuso menywod

Deilliannau dysgu

- Bydd dysgwyr yn defnyddio data ac astudiaethau achos i archwilio effaith y grwpiau gweithredu cyfunol
- Bydd dysgwyr yn defnyddio data ac astudiaethau achos fel tystiolaeth ac enghreifftiau yn eu hysgrifennu

Cwestiynau allweddol

- I ba raddau y mae gweithredu cyfunol yn cael effaith ar rymuso menywod?

Adnoddau

- Sioe sleidiau 6
- *Taflen waith Dysgwyr 6A: Effaith Grwpiau Gweithredu Cyfunol ar Rymuso Menywod*
- *Taflen Dysgwyr 6B: Astudiaethau Achos Menywod mewn Grwpiau Gweithredu Cyfunol*

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Lloegr

- Dylid addysgu'r disgyblion i ymestyn eu gwybodaeth leoliadol a dyfnhau eu hymwybyddiaeth ofodol o wledydd y byd gan ddefnyddio mapiau o'r byd i ganolbwyntio ar Affrica
- Dylid addysgu'r disgyblion i ddeall tebygrwydd, gwahaniaethau a chysylltiadau daearyddol rhwng lleoedd drwy astudio daearyddiaeth ddynol a ffisegol rhanbarth yn Affrica
- Dylid addysgu'r disgyblion i ddeall daearyddiaeth ddynol yn ymwneud â: poblogaeth a threfoli; datblygiad rhyngwladol; gweithgarwch economaidd yn y sectorau cynradd, eilaidd, trydyddol a chwaternaidd; a'r defnydd o adnoddau naturiol

  Dylid addysgu'r disgyblion i ddadansoddi a llunio casgliadau o ddata daearyddol, gan ddefnyddio ffynonellau lluosog o wybodaeth cynyddol gymhleth.

Cymru

Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 3

Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau - Disgrifio ac esbonio nodweddion ffisegol a dynol, esbonio achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n cydberthyn

Mathemateg Cyfnod Allweddol 3 / Fframwaith Rhifedd

Defnyddio sgiliau data - dehongli canlyniadau

Yr Alban

Astudiaethau cymdeithasol

Gallaf egluro pam y gallai grŵp yr wyf wedi'i nodi brofi anghydraddoldeb ac yn gallu awgrymu ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hyn. **SOC 3-16a**

Rhifedd a mathemateg

Wrth ddadansoddi gwybodaeth neu gasglu data fy hun, gallaf ddefnyddio fy nealltwriaeth o sut y gall tuedd godi a sut y gall maint y sampl effeithio ar gywirdeb, er mwyn sicrhau bod y data yn caniatáu ar gyfer dod i gasgliadau teg.
MTH 3-20b

I ddechrau *(5 mun)*

Beth sydd angen i chi ei wybod?

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu unrhyw wybodaeth y maent yn credu y bydd ei hangen arnynt i ateb y cwestiwn hwn: i ba raddau y mae gweithredu cyfunol yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ffermwyr sy'n fenywod? Gallai syniadau gynnwys: data i gymharu menywod sy'n perthyn i'r grwpiau gweithredu cyfunol gyda'r rhai nad ydynt yn perthyn iddynt, data ar incwm neu gyfoeth y menywod, a gwybodaeth am ba mor hapus mae'r menywod.

Dylai dysgwyr geisio defnyddio'r hyn y maent wedi ei ddysgu yn y gwersi blaenorol yn y gyfres hon, er enghraifft: cymharu data menywod mewn grwpiau gyda'r rhai nad ydynt mewn grwpiau.

Gallech annog trafodaethau ynghylch sut beth fyddai effaith gadarnhaol ar fywydau'r menywod hyn. A all dysgwyr feddwl am effeithiau heblaw am ennill mwy o arian? Er enghraifft: pa mor hyderus yw'r menywod, pa mor hapus ydynt, faint o straen sydd arnynt, faint o amser rhydd sydd ganddynt, faint o reolaeth sydd ganddynt dros benderfyniadau yn eu teuluoedd. Noder, nid yw'r rhain i gyd yn hawdd eu mesur ac ni chafodd y rhan fwyaf eu cynnwys yn y prosiect ymchwil ond maent yn syniadau y gallai'r dysgwyr eu hawgrymu.

A/neu:

Dangoswch sleid 5 yn sioe sleidiau 6. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis y tri maes y maent yn credu y byddai'n fwyaf pwysig ar gyfer galluogi ffermwyr sy'n fenywod i wella eu bywydau. Dylai dysgwyr ysgrifennu neu drafod eu rhesymau a'u dewisiadau.

Yr wyth maes i ddewis o'u plith yw:

1. Mwy o ddylanwad dros yr hyn sy'n digwydd ar ffermydd lle mae'r fenyw yn gweithio. Gallai'r ffermydd hyn fod yn ffermydd teuluol neu ffermydd masnachol.
2. Mwy o lais o ran y ffordd y mae'r arian a enillir wrth ffermio yn cael ei wario.
3. Bod yn berchen ar fwy o arian, tir, anifeiliaid a/neu offer.
4. Hawl menyw i benderfynu beth sy'n cael ei wneud gyda thir, anifeiliaid ac offer ffermio yn cael ei barchu.
5. Mwy o ddylanwad dros fenthyg arian.
6. Mwy o lais o ran y ffordd y mae arian yn cael ei wario yn y cartref (anghenion bob dydd a phwrcasau mwy)
7. Mwy o ryddid i deithio i ffwrdd o'r cartref.
8. Mwy o ryddid i fynd i gyfarfodydd grwpiau gweithredu.

Esboniwch i ddysgwyr fod pob un o'r meysydd hyn yn cael effaith ar rymuso menywod - esboniad syml iawn o rymuso menywod yw cefnogi menywod i allu gwella eu bywydau.

Hefyd esboniwch fod Oxfam wedi edrych ar ba mor bell ac ym mha ffyrdd y mae grwpiau gweithredu cyfunol yn helpu menywod i rymuso eu hunain. Bu hyn o gymorth i Oxfam a sefydliadau eraill er mwyn deall pa rai yw'r strategaethau gorau y gallant eu defnyddio i gefnogi ffermwyr sy'n fenywod i wella eu bywydau a dianc rhag tlodi.

Yna, gofynnwch i ddysgwyr:

- Pam ydych chi'n meddwl bod yr ymchwilwyr wedi dewis mesur grymuso gan ddefnyddio'r wyth dimensiwn uchod? Anogwch y dysgwyr i feddwl am sut y byddai pob un o'r rhain yn effeithio ar fywydau menywod. Ceir rhagor o wybodaeth ar rymuso menywod yn y nodiadau cefndir a diffiniad addas i ddysgwyr ar sleid 4 yn sioe sleidiau 6.

- Pe byddech yn gwneud eich astudiaeth eich hun i fesur grymuso menywod, pa bethau eraill efallai y byddech am gasglu gwybodaeth amdanynt?

Gweithgaredd 6.1 *(15 mun)*

Effaith grwpiau gweithredu cyfunol ar rymuso menywod

Esboniwch y bydd dysgwyr yn awr yn edrych ar fwy o'r data a'r canfyddiadau o'r prosiect i benderfynu i ba raddau y cafodd y grwpiau effaith gadarnhaol ar rymuso menywod.

Dosbarthwch daflen waith dysgwyr 6A: Effaith grwpiau gweithredu cyfunol ar Rymuso Menywod a gofyn i'r dysgwyr benderfynu ar gyfer pob datganiad a yw'n cael effaith gadarnhaol ar y ffermwyr sy'n fenywod. Gallai dysgwyr dorri allan a didoli'r datganiadau yn nhrefn y rhai a gafodd yr effaith fwyaf.

At ei gilydd, a yw dysgwyr yn meddwl bod aelodaeth o grŵp wedi helpu i rymuso menywod?

Gallai dysgwyr hefyd benderfynu pa effaith y maent yn meddwl oedd y fwyaf pwysig ar gyfer grymuso menywod, a pham. Gallent ysgrifennu eu syniadau i lawr.

Gwahaniaethu

Ei gwneud yn haws:

Yn hytrach na phenderfynu ar y graddau y cafodd y grwpiau effaith gadarnhaol, gallai dysgwyr benderfynu a ydynt yn meddwl bod yr effaith yn gadarnhaol ai peidio.

Gweithgaredd 6.2 *(10 mun)*

Dehongli siartiau

Esboniwch i'r dysgwyr y byddant yn awr yn cael data mwy ansoddol i ddatblygu eu dealltwriaeth o rymuso menywod yn y ddwy wlad oedd yn cael eu hastudio.

Dangoswch y siart yn dangos y data ar rymuso menywod yn Ethiopia (am ragor o wybodaeth, gweler y nodiadau cefndir) ar sleid 6 yn sioe sleidiau 6.

Bydd dysgwyr yn ateb y cwestiynau ar y sleid ganlynol.

Mae cwestiynau pellach sy'n gysylltiedig â'r siart ar sleid 7 yn sioe sleidiau 6 (gweler y nodiadau cefndir am gymorth gyda chwestiwn 4).

Gwahaniaethu

Ei gwneud yn haws:

Yn hytrach na gofyn i ddysgwyr ateb y cwestiynau yn y cyflwyniad, rhowch rai datganiadau am y siart iddynt a gofyn iddyn nhw benderfynu a ydynt yn gywir neu'n anghywir. Er enghraifft:

- Cywir neu anghywir? Mae menywod sy'n perthyn i grwpiau gweithredu cyfunol yn cael mwy o fynediad at gredyd (benthyg arian).
- Cywir neu anghywir? Mae menywod sy'n perthyn i grwpiau gweithredu cyfunol yn cael llai o ryddid i symud o gwmpas.

Gweithgaredd 6.3 ***(15 mun)***

Astudiaethau Achos

Dosbarthwch daflen waith dysgwyr 6B: Astudiaethau Achos Menywod mewn Grwpiau Gweithredu Cyfunol i'w darllen yn unigol neu fel dosbarth.
Trafodwch mewn grwpiau bach neu fel dosbarth beth mae'r astudiaethau achos yn ei ddangos am effaith bod yn rhan o grŵp gweithredu cyfunol ar y menywod.
Esboniwch i'r dysgwyr fod yr astudiaethau achos yn ffurf arall o gasglu data - data ansoddol - a bod casglu y math hwn o ddata yn bwysig gan y gall ychwanegu at a newid dealltwriaethau a chanfyddiadau'r data meintiol. Daeth canfyddiadau cyffredinol yr ymchwil o'r data ansoddol a meintiol a gasglwyd.

- Mae data ansoddol yn ein helpu i ddeall y rhifau meintiol. Gall cyfweliadau gyda'r menywod ddatgelu pethau newydd nad oedd yr ymchwilydd wedi meddwl amdanynt, a allai arwain at gwestiynau pellach ar gyfer yr astudiaeth feintiol.
- Yn y cyfamser, mae data meintiol yn rhoi darlun cyffredinol i gydbwyso cyfweliadau pan nad yw'r person sy'n cael ei gyfweld efallai yn gynrychioliadol o'r grŵp ehangach.

Gofynnwch i'r dysgwyr a wnaeth yr astudiaeth achos newid y farn yr oeddent wedi'i ffurfio yn y gweithgaredd blaenorol.

Gweithgaredd 6.4 *(15 mun)*

Ysgrifennu ymateb

Gan ddefnyddio sleidiau 10-14 yn sioe sleidiau 6, gofynnwch i'r dysgwyr benderfynu i ba raddau y maent yn cytuno â'r datganiad "Mae grwpiau gweithredu cyfunol yn cael effaith gadarnhaol ar ffermwyr sy'n fenywod". Maent yn gyntaf yn penderfynu pa ganran y maent yn cytuno â'r datganiad hwn, h.y. Rwy'n credu ei fod yn 80% cywir yna yn defnyddio'r sleid olaf i ddewis geiriau sy'n cyd-fynd â'r ganran honno.

- Mae'n werth pwysleisio i ddysgwyr bod yna elfen incwm ac elfen rymuso o safbwynt yr effeithiau ar ffermwyr sy'n fenywod. Ceisiwch esbonio fod effeithiau grymuso fel y pŵer i wneud penderfyniadau yn hanfodol ochr yn ochr â manteision economaidd. Er enghraifft, mae effaith incwm uwch yn gyfyngedig os nad oes gennych unrhyw reolaeth dros sut y mae'r arian yn cael ei wario.

Mae dysgwyr yn awr yn ysgrifennu ymateb i'r datganiad, gan ddefnyddio'r datganiadau yn nhaflen waith dysgwyr J, y siartiau a'r astudiaethau achos yn eu hateb. Gallwch ddefnyddio sleidiau 15 a 16 i gefnogi ysgrifennu'r dysgwyr.

Fel dewis arall gallech gyflwyno datganiad fel 'continwwm barn' a gofyn i'r dysgwyr sefyll mewn llinell i ddangos i ba raddau y maent yn cytuno. Yna byddant yn gwrando ar safbwyntiau ei gilydd ac ymateb iddynt.

Gwahaniaethu

Ei gwneud yn fwy heriol:

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn y pedair gwers flaenorol a chyfeirio at y data y maent wedi bod yn eu defnyddio yn eu hateb.

Rhagor o syniadau

Gallai dysgwyr rannu eu dysgu gydag eraill yn yr ysgol a/neu'r gymuned ehangach drwy ysgrifennu erthygl newyddion, gwneud ffilm, cynnal gwasanaeth ac ati.

Telerau defnydd

Hawlfraint © Think Global ac Oxfam DU

www.think-global.org.uk www.oxfam.org.uk

Gallwch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid i chi roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith prosiect.

Taflen Dysgwyr 6A

Effaith Grwpiau Gweithredu Cyfunol ar Rymuso Menywod yn Ethiopia

Mae menywod sy'n aelodau o grwpiau gweithredu cyfunol yn ennill 80% yn fwy na'r rhai nad ydynt mewn grwpiau.

Mae menywod sy'n aelodau o grwpiau gweithredu cyfunol â chynnyrch o ansawdd uwch ac maent yn gwneud mwy o'u cynnyrch.*

Mae menywod sy'n perthyn i grwpiau â mwy o reolaeth dros sut y caiff arian ei wario yn y cartref.

Nid oedd perthyn i grŵp bob amser yn helpu menywod i oresgyn rhai o'r problemau sy'n eu rhwystro rhag gwerthu eu cynnyrch. Er enghraifft, yn aml nid yw menywod yn cael teithio ymhell o'u cartref felly na allant fynd i farchnadoedd lle y gallent gael gwell pris am eu cynnyrch. Hefyd, yn aml nid yw edrych ar ôl eu teulu a'r cartref yn rhoi digon o amser ychwanegol i fenywod i werthu eu cynnyrch. Ac mae diwylliant lleol yn dweud mai gwaith dyn yn gwerthu cynnyrch, nid gwaith menyw.

Mae gan fenywod sy'n aelodau o grwpiau fwy o fynediad at gredyd (arian y gallant ei fenthyg i dalu am bethau fel trafnidiaeth).

Mae gan fenywod sy'n perthyn i grwpiau fwy o fynediad at wybodaeth am farchnad eu cynnyrch e.e. pa brisiau y gallant godi amdano.

Nid oedd menywod mewn grwpiau bob amser yn gallu cael mynediad at brynwyr a fyddai'n talu mwy o arian am eu cynnyrch. Er enghraifft, hyd yn oed oeddent yn gwneud cynnyrch o ansawdd uwch, nid oeddent o reidrwydd yn gallu cael mynediad at brynwyr mwy cyfoethog, fel pobl sy'n byw mewn trefi neu dramor, y byddent yn gallu talu mwy o arian.

*** Daethpwyd i'r casgliad hwn mewn perthynas â phob un o'r tair gwlad a astudiwyd (Ethiopia, Tanzania a Mali).**

Taflen Dysgwyr 6B

Astudiaethau Achos Menywod mewn Grwpiau Gweithredu Cyfunol

Bosena, Ethiopia

Mae Bosena yn 40 mlwydd oed, ac mae hi'n cael ei gweld fel un o wenynwyr benywaidd mwyaf llwyddiannus rhanbarth Amhara. Mae'n aelod uchel ei pharch o'i chymuned ac yn aelod gweithredol o bwyllgor menter gydweithredol mêl Meserethiwot. Mae hi wedi llwyddo er gwaethaf cael plentyndod gymharol anodd, peidio â mynd i'r ysgol erioed a phriodi yn wyth mlwydd oed. Fel gwraig briod, roedd yn rhaid iddi gyflawni'r holl ddyletswyddau a'r cyfrifoldebau traddodiadol a ddisgwylir gan famau yn ardal wledig y rhanbarth (megis coginio, glanhau a chasglu coed tân), heb lawer o gymorth gan ei gŵr cyntaf a'i deulu.

Mae cyfuniad o ffactorau wedi galluogi Bosena i lwyddo fel gwraig fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys ei rhinweddau personol a'i sgiliau, cymryd rhan mewn hyfforddiant gan Oxfam, a chefnogaeth ei hail ŵr. Mae Bosena yn adnabyddus am fod yn rhagweithiol a mabwysiadu syniadau newydd cyn pobl eraill yn ei phentref. Oherwydd y nodwedd hon hi oedd y fenyw gyntaf a anfonwyd i gael hyfforddiant, gan Oxfam, i helpu ffurfio grwpiau menywod yn unig

yn yr ardal. Ar ôl yr hyfforddiant, gofynnwyd i Bosena ddewis 20 o fenywod o aelwydydd tlotach i ymuno â hi wrth sefydlu grŵp pentref i fenywod yn unig. Roedd ei meini prawf dethol ar gyfer aelodaeth yn cynnwys didwylledd, bod yn aelod gweithgar o'r gymuned, parodrwydd i weithio gydag eraill, a bod yn eiddo ar o leiaf un cwch gwenyn.

Mae aelodau o'r grŵp menywod yn unig yn credu mai'r esiampl a osodwyd gan Bosena, fel ei gadeirydd cyntaf, yw'r rheswm pam y mae'r grŵp yn perfformio'n well na'r grwpiau eraill yn yr ardal, ac mae hi'n cael ei gweld fel model rôl ar gyfer menywod eraill yn y pentref. Yn ogystal, mae Bosena wedi cael ei hethol i bwyllgor gweithredol ei menter gydweithredol mêl, i gydnabod ei sgiliau arwain a'i gwybodaeth am gadw gwenyn. Sylweddolodd y pwyllgor, er nad yw'n llythrennog, ei bod hi'n perfformio'n dda iawn yn cynrychioli menywod a denu rhagor o aelodau benywaidd. Hi yw'r ferch gyntaf i lenwi swydd uwch ar y pwyllgor, sydd wedi chwalu'r feddylfryd draddodiadol mai i ddynion yn unig y mae'r math yma o swydd.

Mae Bosena yn teimlo bod ganddi berthynas agos a chefnogol iawn gyda'i hail ŵr. Mae e'n cynghori gwŷr eraill i gefnogi eu gwragedd mewn gweithgareddau grwpiau gweithredu cyfunol. Mae Bosena'n cydnabod y byddai'n llawer mwy anodd iddi gyflawni ei swyddogaethau a chyfrifoldebau grŵp heb ei gymorth a'i anogaeth. Mae Bosena'n gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan Oxfam, megis hyfforddiant, anogaeth i gymryd swyddi arweinyddiaeth, a mynediad at gymorth ariannol. Mae Oxfam hefyd wedi rhoi cychod gwenyn modern ac offer diogelwch iddi. Mae hi'n dweud heb gymorth Oxfam, "Byddwn yn parhau i fod yn union fel unrhyw wraig tŷ yn ein pentref heb unrhyw wybodaeth am y byd allanol ... ni fyddwn yn mynychu cyfarfodydd, heb sôn am eu harwain ... Gallwn i ond chwarae rhan fach iawn yn y sector cadw gwenyn."